# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 14EG CHWEFROR 2018 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dro Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol) a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid (Cyllid Corfforaethol)), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Dros Dro), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), C. Forbes -Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a S151 Dros Dro).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 31AIN IONAWR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2018 (rhifau cofnod. 1 - 11) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

## 4. PORTFFOLIO GWELLA BUSNES

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar waith y Rhaglen Portffolio Gwella Busnes (PGB); ei nodau a'i amcanion; strwythur y rhaglen; amserlenni ar gyfer cyflwyno a llywodraethu a threfniadau rheoli'r rhaglen wrth symud ymlaen.

Lansiwyd y Rhaglen PGB ym mis Mawrth 2016. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r rhaglen wedi bod yn destun adolygiad a nododd yr angen i'r rhaglen gael ei mireinio i gymryd mewn ystyriaeth yr heriau sydd wedi wynebu'r sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf a'r heriau sydd ar y gweill. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed yn y rhaglenni hyd yn hyn a nododd sut y mae'r Bwrdd PGB yn bwriadu cyflwyno rhaglen o newid a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r pwysau sefydliadol wrth symud ymlaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cymeradwyo nodau ac amcanion y Rhaglen PGB;

(iii) cymeradwyo strwythur y rhaglen fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;

(iv) cymeradwyo'r gweithredoedd penodedig fel y'u nodir ym mharagraffau 4.7.6, 4.8.5, 4.8.8 a 4.8.9 yr adroddiad;

(v) cymeradwyo'r prosiectau PGB fel y'u rhestrir ym mharagraff 4.9.3 ac Atodiad 1 yr adroddiad;

(vi) nodi'r amserlen fel y nodir ym mharagraff 4.10.2;

(vii) cymeradwyo trefniadau'r llywodraethu a'r rhaglen rheoli fel y'u nodir ym mharagraffau 4.11.1 i 4.11.6 yr adroddiad;

(viii) cymeradwyo'r broses adrodd a awgrymir fel y'i nodir yn 4.11.6 yr adroddiad.

## 5. YMGYRCH "DYING TO WORK"

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor gefnogi Ymgyrch "Dying to Work" yr Undeb Llafur ac ymuno â'r Siarter.

Mae'r Undebau Llafur yn ymgyrchu dros newid deddfwriaeth i newid statws cyflogaeth gweithiwr sy'n dioddef o salwch terfynol, fel bod eu swydd yn cael ei diogelu yn yr un modd â gweithiwr sy'n feichiog. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg i'r Cabinet o Ymgyrch "Dying to Work" yr Undeb Llafur ac argymhelliad bod y Cyngor yn ymuno â'r Siarter.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd i newid enw'r ymgyrch gael ei lobïo.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion i gefnogi Ymgyrch "Dying to Work" yr Undebau Llafur a bod y Cyngor yn ymuno â'r

siarter.

## 6. POLISI RHEOLI DIRGRYNIAD LLAW-BRAICH YN Y GWEITHLE

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Polisi a Threfniadau Rheoli Corfforaethol ar gyfer rheoli Dirgryniad Llaw-Braich yn y Gweithle.

Yn 2012, cynghorodd adroddiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol am yr amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â Dirgryniad Llaw-Braich. Ar yr adeg honno, roedd angen gwelliannau wrth sgrinio darpar weithwyr, asesu risg a phrosesau monitro amlygiad dirgryniad o fewn meysydd gwasanaeth. Yn ogystal, roedd angen adolygu a gwella arolygu iechyd, a oedd wedi'i gontractio eisioes. Ers 2012, gwnaed gwelliannau ym mhob rhan o reoli dirgryniad ac, ar ddiwedd y rhaglen wella, drafftiwyd Polisi Dirgryniad Llaw-Braich a Threfniadau Rheoli Corfforaethol an Iechyd a Diogelwch, sy'n adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd am ragor o wybodaeth am nifer yr hawliadau sy'n mynd rhagddynt. Esboniodd y Swyddog fod nifer o hawliadau yn hanesyddol, fodd bynnag, ers gweithredu proses sgrinio gadarn a pholisi a reolir yn dda, ni fu unrhyw hawliadau diweddar.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion i gymeradwyo'r Polisi Rheoli Dirgryniad Llaw-Braich yn y Gweithle (atodiad 1) a Threfniadau Rheoli Corfforaethol (atodiad 2).

## 7. POLISI DIOGELWCH TRYDANOL

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet a'r mabwysiadu o'r Polisi Diogelwch Trydanol gan yr Awdurdod.

Gwnaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch argymhellion yn ymwneud â'r angen am bolisi yn nodi ymrwymiad yr Awdurdod a threfniant ar gyfer rheoli diogelwch trydanol yn dilyn digwyddiad trydanol adroddadwy RIDDOR, ac archwiliadau diogelwch trydanol dilynol gan Arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Ers ymweliadau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gwnaed gwelliannau wrth reoli diogelwch trydanol ac mae'r Polisi Diogelwch Trydanol wedi'i ddrafftio gan y Gwasanaethau Eiddo ac Iechyd a Diogelwch sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n gweithredu ar hyn o bryd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i gymeradwyo'r Polisi Diogelwch Trydanol.

## 8. MONITRO'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL (Q3 – 2017/18)

Rhoddodd yr Adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar y Strategaeth Rheoli Risg Corfforaethol a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet cyn cyflwyno'r Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio ar 3ydd Ebrill 2018.

Nododd y Cabinet fod gan yr Aelodau rôl i'w chwarae wrth werthuso trefniadau Rheoli Risg y Cyngor ac yn benodol mewn deall sut mae'r cyngor yn nodi, rheoli, a lle mae hynny'n bosibl, lliniaru neu ddileu risg. Mae Rheoli Risg yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau'r

Cyngor yn effeithiol.

O dan Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn monitro Risgiau Corfforaethol y Cyngor ac mae gan y Pwyllgor Archwilio rôl adolygu a herio'r gofrestr risgiau a, lle bo hynny'n berthnasol, cynlluniau gweithredu canlyniadol, ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol allweddol y Cyngor. Mae rôl y Cabinet wedi'i ffurfioli, ac yn symud ymlaen, mae'r Cabinet yn derbyn adroddiadau cynnydd bob chwe mis am y Gofrestr Risg Corfforaethol. Cafodd y Gofrestr Risg ei hadolygu a'i diweddaru gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 7fed Rhagfyr 2017 a chrynhoir y newidiadau a wnaed yn y tabl yn 4.4 o'r adroddiad.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a mynegodd Aelod bryder am y Sgôr Risg Uchel a roddwyd i'r Rhaglen SATC. Nodwyd bod gwaith sylweddol wedi bod ar y gweill o fewn y rhaglen, sydd wedi cynnwys cyflwyno proses caffael newydd a'r defnydd o'r gweithlu mewnol i gwblhau gwaith ar eiddo, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, teimlwyd y dylid lleihau'r sgôr risg. Esboniodd swyddogion fod yr adolygiad o'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi cael ei gynnal ym mis Rhagfyr, ac roedd y sgôr yn briodol ar y pryd. Fodd bynnag, pan gyflwynir y Gofrestr nesaf i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, bydd hyn yn cael ei adolygu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog i gymeradwyo'r Gofrestr Risg Corfforaethol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried.

## 9. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Roedd yr adroddiad yn ceisio cadarnhad Blaenraglen Waith y Cyngor am y cyfnod o Chwefror 2018 i Ebrill 2018.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer adroddiadau Cabinet yn y dyfodol.

Mae Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei diweddaru yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy’n cael eu gwneud iddi ers iddi gael ei chytuno yn gyntaf ar yr 22ain o Ionawr 2014.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod rhai newidiadau ac eitemau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Rhaglen ers cyhoeddi'r adroddiad ac amlygwyd y rhain gan y Swyddog cyflwyno.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad, ac yn amodol ar newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod, i gymeradwyo a gyhoeddi Flaenraglen Waith y Cabinet.

## ARGYMHELLION I'R CYNGOR

## 10. DIWYGIADAU I AWDURDODI SWYDDOGION YN YR ADRAN DIOGELU'R CYHOEDD

Roedd yr adroddiad yn ceisio cadarnhad y Cabinet ar gyfer cynigion cyllideb 2018/19, cyn penderfyniad terfynol y Cyngor ar 22ail Chwefror 2018. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno manylion am Gynllun Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd yn ystod y cyfnod pum mlynedd o 2018/19 i 2022/23.

Nododd y Cabinet fod Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Dros Dro 2018/19 Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar 10fed Hydref 2017 ac, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn a chyfrifoldebau newydd, dangosodd hyn ostyngiad ariannol net o £2.965m ar gyfer CBS Caerffili o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol 2017/18 ar sail gyfatebol.

Cyflwynwyd manylion cynigion cyllideb drafft 2018/19 wedyn i'r Cabinet ar 15fed Tachwedd 2017, gyda'r elfennau allweddol o gynnydd arfaethedig o 4.52% yn Nhreth y Cyngor a phecyn o arbedion arfaethedig sef cyfanswm o £7.205 miliwn.

Dangosodd Setliad Ariannol Terfynol 2018/19 ar 20fed Rhagfyr 2017 sefyllfa well gyda'r gostyngiad net o arian yn gostwng o £2.965m i £1.778m, sy'n darparu £1.187m yn y pen draw wrth ystyried cynigion cyllideb derfynol 2018/19. Fodd bynnag, bydd y Cabinet yn nodi bod yna faterion sy'n codi sydd wedi eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion y gyllideb derfynol, yn enwedig pwysau costau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhoddodd Tablau 6 a 7 yr adroddiad fanylion am bwysau cost yr Awdurdod Cyfan a phwysau gwasanaeth na ellir eu hanwybyddu y mae angen eu hystyried mewn perthynas â chyllid. Nodwyd bod cynigion cyllideb drafft 2018/19 yn cynnwys twf o £1.5 miliwn ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd bellach wedi cynyddu i £3m oherwydd pwysau sylweddol ar gostau yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau Plant. Nodwyd hefyd fod cynigion y gyllideb drafft yn cynnwys £700mil o dwf arfaethedig mewn perthynas â Chynlluniau Menter Cyllid Preifat ysgolion. Bwriedir gohirio hyn i 2019/20 er mwyn caniatáu gwaith parhaus gyda Phartneriaethau Lleol i ddod i ben ac i ystyried pob opsiwn posib. Cyflwynir adroddiad manwl i'r Aelodau ar ganlyniad yr adolygiad yn yr haf.

Rhoddodd Adran 4.3 yr adroddiad fanylion y cynigion arbedion wedi'u diweddaru ar gyfer 2018/19. O ganlyniad i'r hyn sy'n ychwanegol wrth gefn yn y Setliad Terfynol, mae'r swm o arbedion wedi'i ostwng o £7.205m i £6.736m. Dangosodd Tabl 9 yr adroddiad arbedion gwerth cyfanswm o £537mil a gafodd eu gohirio o ganlyniad i adborth o'r broses ymgynghori eang a gynhaliwyd ar gynigion y gyllideb ddrafft.

Rhoddodd Adran 4.4 yr adroddiad fanylion cynigion cyllideb ysgolion ar gyfer 2018/19. Yn sgil y pwysau cost a ragwelir o ddyfarniad cyflog Athrawon, argymhellir bod £547mil yn cael ei drosglwyddo o gyllidebau Ariannu Cyfalaf i'r gyllideb ysgolion dirprwyedig i gynorthwyo i gwrdd â'r baich ariannol ychwanegol hwn.

Er mwyn sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni ar gyfer 2018/19, cynigir cynnydd o 4.52% yn Nhreth y Cyngor. Bydd hyn yn cynyddu archebiant Band D CBS Caerffili o £1,011.96 i £1,057.70 ac o ganlyniad i hyn bydd cynnydd blynyddol o £45.74 neu gynnydd wythnosol o 88 ceiniog.

Nododd Adran 4.5 yr adroddiad ac Atodiad 5 fanylion symudiadau ar y Gronfa Gyffredinol. Nododd y Cabinet fod y symudiadau hyn yn arwain at falans Cronfa Gyffredinol ragamcanedig o £10m ar 31ain Mawrth 2018, sef yr isafswm balans a argymhellir gan y Swyddog Adran 151.

Mae Adran 4.7 yr adroddiad ac Atodiad 6 yn rhoi manylion y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf. Nododd y Cabinet y bydd adroddiad pellach yn cael ei baratoi yn ystod y gwanwyn yn nodi symiau a gedwir mewn Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn wedi'u Clustnodi, a darparu opsiynau ar gyfer sut y gellir defnyddio'r symiau hyn, e.e. arian cyfatebol ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Bydd y Cabinet yn ymwybodol bod heriau ariannol arwyddocaol yn dal o'n blaenau a bod Atodiad 7 o'r adroddiad yn rhoi manylion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf, a ddangosodd ofyniad arbedion posibl o £40.822 miliwn ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2022/23.

Nododd y Cabinet, drwy Raglen Gwella Busnes y Cyngor, y bydd adolygiadau strategol yn edrych ar sut y gall gwasanaethau ddod yn fwy effeithlon o ran busnes drwy archwilio sut y maent yn cael eu darparu ar hyn o bryd, archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o ffocws ar

gwsmeriaid, darpariaeth ddigidol, modelau cyflwyno amgen a chyfleoedd masnachol; tra'n edrych ar fesurau ataliol a fydd yn annog ymyrraeth gynnar a fydd yn y pen draw yn caniatáu i'r galw am reoleiddio rhai gwasanaethau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a mynegodd eu diolch i'r staff am y gwaith caled a wnaed.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) nodi'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth gan y Cabinet a chyfeirio'r newidiadau i'r Cyngor i'w benderfynu;

(ii) bod Cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Cyngor yn cael eu diwygio drwy ychwanegu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

(iii) bod Swyddogion o fewn Adran Diogelu'r Cyhoedd yn cael eu hawdurdodi o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.51 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Chwefror 2018.

______________________

CADEIRYDD